

Cyngor Cymuned Gors-las Community Council



Clerk/Clerc: Mr. Llew Thomas,
9 Rhodfa Morgan,
Llangunnor,
CARMARTHEN,

23 Rhagfyr, 2021.

Annwyl Drigolion,

Cyfarchion cynhesaf y tymor i chi drigolion Cyngor Cymuned Gorslas, wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ryfedd ac anodd arall.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig i dynnu'ch sylw at ychydig o ddatblygiadau ym mharciau Gorslas a Cefneithin y mae'r Cyngor Cymuned wedi gallu eu cyflawni am fod cyllid ar gael ar gyfer y parciau penodol hyn yn dilyn datblygiadau tai yn yr ardaloedd hynny.

Fel Cyngor, gwelsom yr angen i wella a diweddarau nifer o eitemau mawr mewn dau o'n parciau chwarae, ynghyd ag uwchraddio'r cyfleusterau cyhoeddus yng Ngorslas gyda thua chwe mil o bunnoedd yn cael ei wario ar ddiweddarau'r toiledau cyhoeddus sydd wedi derbyn safon aur yng ngwobrau "Tŷ Bach y Flwyddyn".

Fel trigolion lleol, efallai eich bod wedi gweld hen offer yn cael ei dynnu i lawr a'i symud ym Mharciau Gorslas a Cefneithin, a chyfarpar newydd o'r radd flaenaf yn cael ei osod, sy'n fuddsoddiad o dros gant ac ugain o filoedd o bunnoedd. Hoffwn gydnabod gwerthfawrogiad diolchgar y Cyngor Cymuned am gyfraniad sylweddol iawn o chwe mil o bunnoedd gan Gymdeithas Les Gorslas i'r cynllun. Gyda'r cyllid hwnnw prynwyd Gwifren Wib (Zip Wire) gyffrous. Diolch yn fawr iawn.

Gyda'r buddsoddiad hwn mewn dau o'n parciau, nid ydym chwaith wedi anghofio am ein trydydd parc yn Nrefach lle byddwn, fel Cyngor, yn parhau â'r rhaglen wella trwy geisio am gyllid i ychwanegu at neu ddiweddarau offer yn ôl yr angen.

Dros y ddwy flynedd anodd iawn ddiwethaf mae mwy a mwy o bobl wedi defnyddio a gweld gwerth y parciau hyfryd sydd gennym yn yr ardal, ac fel Cyngor rydym wedi bod yn gweithio'n galed i'w cynnal a'u gwella. Maent yn asedau gwrioneddol wych, ac os oes gennych unrhyw syniadau neu adborth ar sut y gellid eu gwella, yna rhowch wybod i'ch Cynghorydd Cymunedol lleol neu anfon eich sylwadau ymlaen trwy e-bost at y Clerc: gorslas.cc.clerk@gmail.com.

Nadolig Llawen Iawn a Blwyddyn Newydd Heddychlon i chi i gyd.

Cyngorydd Andrew King MStJ

Cadeirydd, Cyngor Cymuned Gorslas 2021-22